Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Cyfrifiadura'r Cwmwl

Beth fyddech chi'n ei wneud pe gallech gael gafael ar yr holl bŵer cyfrifiadura y mae eich busnes ei angen heb fod yn berchen arno? Dyna addewid cyfrifiadura'r cwmwl - dull TG newydd ar gyfer pob busnes, bach neu fawr.

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cyfrifiadura’r Cwmwl

Beth fyddech chi’n ei wneud pe gallech gael gafael ar yr holl bŵer cyfrifiadura y mae eich busnes ei angen heb fod yn berchen arno? Dyna addewid cyfrifiadura cwmwl - dull TG newydd ar gyfer pob busnes, bach neu fawr.

Mae cyfrifiadura’r cwmwl yn galluogi eich busnes i gael gafael ar adnoddau TG megis rhaglenni a storfeydd heb orfod eu gosod ar eich cyfrifiadur personol na’ch rhwydwaith eich hun. Yn hytrach na phrynu gyriant disg newydd, mwy, y cyfan fydd yn rhaid i chi ei wneud yw rhentu ychydig o le ar ddisg, yn lle straffaglu i osod ac uwchraddio meddalwedd, bydd eich darparwr cyfrifiadura cwmwl yn gofalu am hyn i gyd. Yr oll fydd angen i chi ei wneud fydd mewngofnodi a’i ddefnyddio.

Mae cyfrifiadura’r cwmwl yn cynnig hyblygrwydd, effeithlonrwydd ac arbedion ar gostau. A bydd busnesau bach sy’n cael trafferth i gyfiawnhau adran TG fewnol, fawr, yn gallu manteisio ar y dechnoleg a’r cymorth diweddaraf, orau, a hynny heb fawr o orbenion rheoli.

Daeth hyn oll a rhagor, yn ymarferol gyda dyfodiad Band Eang Cyflym Iawn. Mae lled sylweddol y bandiau a alluogwyd gan dechnoleg ffibr wedi cael gwared â’r rhwystrau a oedd yn gwneud y defnydd o weinyddwyr a gwasanaethau o bell yn amhosib i’w rheoli. Heddiw, fodd bynnag, gallwch integreiddio’ch systemau chi’n gwbl ddidrafferth a’r rhai a gynhelir yn y cwmwl.

> Erbyn diwedd 2013, bydd mwy na 75% o fusnesau yn y DU yn defnyddio o leiaf un math o wasanaeth y cwmwl.
> (Ffynhonnell: Fforwm Diwydiant Cwmwl)

## DEALL

### Beth mae’r Dechnoleg yn ei wneud?

Mae cyfrifiadura cwmwl yn fodd o gyflawni eich gofynion TG ar-lein. Fel y gwyddoch y bydd digonedd o ddŵr yn llifo o’r tap pan fyddwch yn ei agor, heb orfod poeni am seilwaith cronfeydd a phympiau a pheipiau, pan fyddwch yn defnyddio’r cwmwl nid oes angen i chi boeni pa weinydd penodol mewn canolfan ddata bell sy’n cynnal eich data.

Yr oll yr ydych ei angen yw cyfrifiaduron personol a’r math o gysylltiad rhyngrwyd cyflym a geir drwy Fand Eang Cyflym Iawn. Rydych yn cysylltu â darparydd eich gwasanaeth cwmwl, a defnyddio rhaglenni a ffeiliau yn y ffordd arferol. Yr unig wahaniaeth, sy’n fwy neu lai yn anweladwy, yw nad ydynt ar eich caledwedd na’ch rhwydwaith, ond ar rai darparydd y gwasanaeth.

Gyda'r cwmwl, gallwch gael gwared ar ran, neu'r rhan fwyaf, o'ch adnoddau TG mewnol. Mae'n well gan rai defnyddwyr ddefnyddio'r cwmwl am ond ychydig o dasgau, fel arfer ar gyfer cadw data wrth gefn ac adfer trychineb, tra'n cadw rhaglenni a data byw ar eu rhwydwaith eu hunain.

Mae eraill yn mynd llawer ymhellach ac yn defnyddio darparydd y cwmwl am eu rhaglenni gwaith o ddydd i ddydd, megis taenlenni a basau data. Gelwir hyn yn aml yn 'Feddalwedd fel Gwasanaeth', ac mae'n cael ei drafod yn fanylach yn ein canllawiau i Feddalwedd fel Gwasanaeth.

Er hynny, ar lefel sylfaenol, mae llawer ohonom wedi defnyddio'r cwmwl yn ddiarwybod. Er enghraifft mae'r rhaglenni a gynigir gan Google Apps neu Zoho yn enghreifftiau o gyfrifiadura cwmwl, fel y mae'r gwahanol ddarparwyr e-bost sy'n defnyddio'r we, neu wasanaeth cerddoriaeth Spotify.

Yn y cyfamser, ar ben arall y raddfa, mae yna raglenni busnes arbenigol ar ffurf Meddalwedd fel Gwasanaeth, megis Desk.com ar gyfer cymorth i gwsmeriaid neu Salesforce.com ar gyfer rheoli cysylltiadau cwsmeriaid.

Mae hefyd yn bosibl datblygu eich rhaglenni eich hunan ar y cwmwl, gan ddefnyddio 'platfform fel gwasanaeth' neu ddarparwyr fel Elastic Compute Cloud (EC2) Amazon. Darperir y dechnoleg sylfaenol, a gall eich staff TG ddatblygu rhaglenni ar hynny. Mae'r rhai sefydliadau mawr yn gweithredu eu 'cymylau preifat' eu hunain, er yn y canllawiau yma byddwn yn canolbwyntio ar y 'cwmwl cyhoeddus' sydd ar gael i unrhyw fusnes ei logi.

Golyga 'Seilwaith fel Gwasanaeth' y gellir cynnal ychydig neu'r cyfan o'ch seilwaith yn y cwmwl. Gall hyn fod yn un gweinydd yn unig neu eich rhwydwaith i gyd a gall, mewn gwirionedd, eich gwneud yn annibynnol ar eich lleoliad.

# Mabwysiadu

## Pa Fanteision Busnes y Gallaf eu Disgwyl?

Mae rhai manteision y cwmwl yn gadarn ac uniongyrchol, tra mae eraill yn fwy strategol.

### Manteision cost

Mae arbed costau yn atyniad mawr i lawer: gall defnyddio adnoddau TG yn y cwmwl fod yn llawer rhatach na bod yn berchen arnynt. Wrth gyfrifo hyn, fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried nid y costau uniongyrchol yn unig o gaffael technoleg o gymharu â'i logi fel gwasanaeth, ond hefyd ffactorau fel cynnal a chostau staff, gwariant a wnaed yn y gorffennol ar systemau mewnol sydd yn dal yn gweithio, ac yn fuan.

Byddwch angen rhyw fath o swyddogaeth TG mewnol hefyd hyd yn oed os yw eich busnes yn symud yn gyfan gwbl i'r cwmwl, i reoli'r berthynas gyda'r gwerthwr cwmwl a'r dechnoleg sylfaenol sydd angen aros ar y safle fel cyfrifiaduron personol a rhwydwaith ardal leol.

Fodd bynnag, gellir disgwyl i gostau rhedeg a chostau cymorth ddisgyn yn sydyn. Gyda'r symudiad o'r model o brynu i'r model o logi, bydd y mwyafrif o gostau TG yn peidio â bod yn wariant cyfalaf ac yn hytrach dod yn gostau gweithredu ar ffurf ffioedd cyson i ddarparydd y gwasanaeth. Golyga hyn, hefyd, fod costau yn cymharu'n well â'r defnydd ni fyddwch yn dal i dalu am offer sy'n segur y rhan fwyaf o'r amser, neu'n gwario swm mawr ar feddalwedd a gaiff ei ddefnyddio ond unwaith y flwyddyn. Byddwch yn talu am yr hyn y byddwch yn ei ddefnyddio.

### Ychwanegu gwerth

Mae goblygiadau i adnoddau dynol yn yr adran TG hefyd. Er y gellir gweld y cwmwl fel cyfle i leihau nifer y staff, gall hefyd fod yn gyfle i adleoli'r staff hynny i dasgau TG mwy creadigol sy'n ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r busnes, yn hytrach na'r gwaith chynnal a chymorth arferol.

### Gwell ystwythder

Fodd bynnag, nid cyllidebau TG yn unig sy'n cael eu heffeithio gan y cwmwl. Yn yr hirdymor gall wella ystwythder, hyblygrwydd ac effeithlonrwydd, drwy adael i chi gael yn union faint o adnoddau TG y byddwch ei angen ar unrhyw adeg – a chan adael i chi ganolbwyntio ar eich busnes craidd a'ch cwsmeriaid yn hytrach nag ar fanion TG.

Wedi'r cyfan, mae'r adnoddau sydd ar gael i chi yn y cwmwl mewn gwirionedd yn ddi-ben-draw. I gwrdd ag anghenion ei holl gleientiaid bydd gan y darparydd cwmwl fwy o rym cyfrifiadura nag a ddefnyddia unrhyw gwsmer unigol. Felly os yw eich gofynion yn cynyddu - hyd yn oed dros dro (efallai byddwch eisiau rhedeg taenlenni llawer mwy nag arfer ar amser cyfrifo blynyddol, neu i gychwyn prosiect yn sydyn) - gallwch ofyn am ychwaneg. Fel arfer fe gewch hyn yn awtomatig ac yn syth, felly mae mor syml ag agor y tap i gael mwy o ddŵr.

### Cynnal ac uwchraddiadau haws

Mantais arall y gall mentrau bychain ei chroesawu yw bod gan y darparydd cwmwl gyfrifoldeb llawn am brynu, gosod, uwchraddio a chynnal offer a meddalwedd. Ni fydd raid i chi orfod delio î chaledwedd trafferthus, neu dreulio amser yn gosod diweddariadau. Pan fyddwch yn agor y tap, byddwch yn sicr o gael yr offer TG diweddaraf, i gyd yn gwbl weithredol.

### Gweithio o bell

Mae manteision eraill yn cynnwys gweithio o bell - os yw rhaglen yn y cwmwl, mae'r un mor hawdd mynd ato gartref neu drwy offer ag yw o'r swyddfa - a gallai fod yn gyfrifiadura mwy cyfeillgar i'r amgylchedd, gan fod adnoddau yng nghanolfan ddata'r darparydd gwasanaeth cwmwl yn cael eu rhannu yn effeithlon ymysg nifer o gwsmeriaid.

# Ymelwa

## Sut Wyf yn Dechrau?

Yn ymarferol, mae'n annhebyg y byddwch yn cyflwyno eich holl waith TG i i ddarparydd cwmwl dros nos. Felly mae'n rhaid paratoi cynllun clir yn amlinellu beth sy'n ofynnol gan ddarparydd, a sut mae ei wasanaethau yn berthnasol i'r agweddau hynny o TG sy'n parhau'n fewnol.

## Beth i'w roi yn y cwmwl?

Y mater mwyaf sylfaenol i'w ystyried yw: beth a ddylai fynd i'r cwmwl? Gallwch brynu unrhyw beth, o weithrediadau caledwedd pur fel storfa ddisg, i ddatblygu Platfform fel Meddalwedd sy'n caniatáu i chi ddatblygu eich rhaglenni eich hunan yn y cwmwl, i feddalwedd gweithredol llawn, ar y model Meddalwedd fel Gwasanaeth. Bydd patrymau a chostau defnyddio TG yn eich busnes yn helpu i benderfynu beth a ellir, yn ymarferol, ei osod yn y cwmwl.

## Addasu

Yn enwedig os ydych yn dewis datrysiad Meddalwedd fel Gwasanaeth, byddwch angen gwybod pa mor bell y gellir ei addasu ar gyfer eich anghenion. Ystyriwch, hefyd, sut y bydd y systemau hynny sy'n aros yn fewnol yn rhyngweithio gyda'r rheini yn y cwmwl. Er enghraifft os yw Adnoddau Dynol ar raglen Meddalwedd fel Gwasanaeth ond y rhestr gyflog yn aros ar eich cyfrifiaduron, bydd rhaid i'r ddau, rywsut, siarad â'i gilydd.

## Materion mudo

Mae angen edrych hefyd ar fudo ac allfudo data o'ch systemau i'r cwmwl – yn enwedig os yw'n cael ei gadw ar ffurf hen ffasiwn neu bwrpasol – rhag ofn y penderfynwch un diwrnod newid darparydd gwasanaeth neu adael y cwmwl yn gyfan gwbl.

## Gwerthuso eich opsiynau

Yna, gallwch ddechrau gwerthuso darparwyr cwmwl gan gofio nad ydych wedi eich cyfyngu i ddewis dim ond un. Os bydd gennych angen sawl defnydd gwahanol yn y cwmwl, efallai y byddai'n well cael gwahanol ddarparwyr ar eu cyfer. Fel arfer, byddwch yn delio gyda'r darparwyr yn uniongyrchol, er bod rhai gwasanaethau cwmwl ar gael drwy sianelau ailwerthu TG.

Mae yna rai cwmnïau enwog yn y maes – ond oherwydd ei fod yn gymharol newydd, nid yw llawer o ddarparwyr sydd yr un mor gymwys mor gyfarwydd, felly mae prynu ar sail enw cwmni yn unig yn annoeth. Ystyriwch gostau, wrth gwrs, ond hefyd warantau perfformiad ar ffurf cytundeb ar lefel gwasanaeth sy'n dangos pa bryd y mae'r gwasanaeth cwmwl ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn. Fel arfer bydd cytundeb ar lefel gwasanaeth yn dangos 99.9% neu fwy.

## Pryderon diogelwch

Mae diogelwch yn ystyriaeth allweddol arall. Gall canolfan ddata'r darparydd cwmwl, fel rhai eraill, ddioddef ymosodiadau seiber- er y bydd ei mesurau diogelwch, o bosibl, yn well na rhai'r rhan fwyaf o fusnesau bach. Ond efallai y bydd yna hefyd broblemau ynghylch cydymffurfio, preifatrwydd a rheoliadau, yn enwedig os byddwch yn cadw data cwsmeriaid ar weinydd darparydd cwmwl neu os yw'r darparydd wedi ei leoli dramor. Dylid trafod cynlluniau cadw wrth gefn ac adfer trychineb.

## Cyfleoedd newydd i'ch staff TG?

Efallai y bydd raid ailddiffinio rôl eich adran TG hefyd. Y mwyaf yr ydych yn defnyddio'r cwmwl, y mwyaf y bydd eich arbenigwyr TG yn troi eu golygon at ddatblygu polisïau ar ddefnyddio cwmwl, cynllunio ar gyfer ddefnyddio'r cwmwl yn effeithlon a monitro perfformiad y cwmwl a sut y mae'n cysylltu â systemau mewnol.

Efallai y bydd angen sgiliau a hyfforddiant newydd i gwrdd â'r heriau hyn. Ond, fel y soniwyd, efallai y bydd eich personél TG yn cael eu rhyddhau i weithio ar brosiectau newydd. Weithiau, mae staff yn amheus o'r cwmwl, yn enwedig os ofnir colli rheolaeth dros TG. Ond gellir goresgyn hyn drwy egluro manteision symud i'r cwmwl.

### Diweddaru

Yn olaf, cynlluniwch i adolygu eich strategaeth a darparwyr cwmwl yn gyson. Hwn yw'r maes sy'n datblygu fwyaf mewn TG, ac mae cynnyrch newydd yn ymddangos yn gyson i wneud y cwmwl yn fwy cynhyrchiol, effeithlon a chost-effeithiol i'ch busnes.

## Awgrymiadau Defnyddiol

### Cofiwch – mae ynghylch adnoddau TG

Mae'r cwmwl yn ffordd o ddarparu adnoddau TG, nid technoleg yn unig.

### Peidiwch ag anghofio bod angen parhau i reoli gweithio yn y cwmwl

Mae'r cwmwl yn lleihau ffidlan dyddiol gyda TG, ond mae dal angen ei reoli.

### Ystyriwch gyfleoedd newydd, nid yn unig cael gwasanaethau newydd yn lle'r hen rai

Peidiwch ag edrych ar y cwmwl fel ffordd arall o ddarparu TG sydd gennych eisoes. A oes cyfle i chi gael offer a thechnolegau newydd hefyd?

### Monitrwch eich gweithgareddau ar safle ac yn y cwmwl

Cadwch gofnodion clir o ba weithrediadau TG sy'n digwydd yn y cwmwl a pha rai sydd yn fewnol – a lle y storir y data.

### Gwiriwch yn drwyadl cyn mynd yn fyw

Profwch yn drwyadl sut y bydd eich TG mewnol yn gweithio gyda gwasanaethau cwmwl, a sut bydd data yn cael ei fudo, cyn mynd yn fyw.

### Nid yw ond ynghylch eich adran TG yn unig

Cofiwch y bydd symud i'r cwmwl yn effeithio – a grymuso – sawl rhan o'r busnes, nid yr adran TG yn unig.

### Mudwch fesul tipyn a dal ati'n gyson

Dechreuwch yn fach, ond meddyliwch yn fawr.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**